GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU AC AMODAU

**GRANTIAU MARCHNATA LLYFRAU I GYHOEDDWYR RHAGLEN**

# A CANLLAWIAU

## 1 AMCANION

Amcan y cynllun yw hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg trwy gynnig grantiau i gyhoeddwyr rhaglen tuag at farchnata llyfrau y tu hwnt i'w cynlluniau marchnata arferol, yn arbennig felly i brynwyr a darllenwyr newydd.

Dylai marchnata fod yn weithgaredd hanfodol i waith pob cyhoeddwr a nod y grantiau hyn yw caniatáu i gyhoeddwyr hyrwyddo'n fwy uchelgeisiol y cyfrolau y byddai eu gwerthiant hwy yn cynyddu fwyaf o'u marchnata'n effeithiol.

## 2 CYMHWYSTER

*Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?*

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr rhaglen ar gyfer hyrwyddo a chynyddu gwerthiant teitlau sydd wedi derbyn grantiau cyhoeddi oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru.

Gall cyhoeddwyr eraill sy'n derbyn grantiau cyhoeddi'r Cyngor wneud cais am grant marchnata i hyrwyddo un neu ragor o lyfrau penodol drwy'r grant marchnata arferol. Gweler y canllawiau perthnasol ar wefan y Cyngor neu cysyllter â'r Swyddog Datblygu drwy'r manylion cyswllt ar waelod y ddogfen hon.

## 3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Bydd pwyslais ar yr elfennau canlynol o ran cloriannu'r ceisiadau:

- rhoddir blaenoriaeth i'r cynlluniau sy'n debygol o wneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gwerthiant;
- dylid anelu at ddenu prynwyr newydd lle bynnag mae hynny'n bosibl;
- mae'n bwysig dewis y llyfrau sy'n addas i'w hybu, llyfrau a fydd ar eu hennill o gael eu marchnata;

## 4 Y GRANT

Cynigir un grant marchnata ar gyfer y flwyddyn ariannol i gyhoeddwyr rhaglen.

Mae disgwyl i'r Cyhoeddwyr Rhaglen wneud ac ysgwyddo'r gost am waith marchnata sylfaenol llyfrau. Golyga hyn:

- drefnu a thalu am bresenoldeb eu staff eu hunain a'r awdur/golygydd mewn digwyddiad;
- hysbysebu sylfaenol mewn papurau bro ayyb.;
- argraffu gwahoddiadau, posteri (yn enwedig yn achos argraffwyr-gyhoeddwyr);
- gwneud datganiadau i'r wasg a gweinyddu sylw ar y cyfryngau cymdeithasol.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

**5 SUT A PHRYD I YMGEISIO**

Gwahoddir cyhoeddwyr rhaglen i gyflwyno un cais marchnata ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd erbyn canol Chwefror bob blwyddyn.

Disgwylir ceisiadau uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar nifer penodol o deitlau'r flwyddyn, ni ddylai'r gyllideb hon gael ei gwario'n gyffredinol dros y rhaglen gyfan.

Dylai'r cyhoeddwyr ddefnyddio cyfanswm y grantiau marchnata a ddyfarnwyd iddynt dros y flwyddyn ddiwethaf fel ffon fesur wrth gyflwyno cais.

Bydd pob cais ar gyfer arian marchnata am y flwyddyn ariannol ganlynol yn ddibynnol ar dderbyn adroddiad llawn ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r cyhoeddwr yn ystod y flwyddyn y dyfarnwyd y grant ar ei chyfer.

**6 TALU'R GRANTIAU**

Telir y Grant Marchnata mewn pedwar taliad cyfartal ar gyfer pedwar chwarter y flwyddyn ariannol. Ni ddisgwylir i'r cyhoeddwyr gyflwyno ffurflen i hawlio'r taliadau hyn ond ceidw'r Cyngor yr hawl i holi am anfonebau a thystiolaeth arall o waith marchnata ar unrhyw adeg.

**7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD**

Bydd pob cais ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn ddibynnol ar dderbyn adroddiad llawn ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r cyhoeddwr yn ystod y flwyddyn y dyfarnwyd y grant.

Bydd disgwyl i'r adroddiad ar waith y flwyddyn gynnwys, o leiaf, ble bo'n briodol:

Nifer y bobl mewn digwyddiad(au)
Nifer y llyfrau a werthwyd mewn digwyddiad(au)
Disgrifiad cyffredinol o'r gweithgaredd(au) a noddwyd
Barn ynglŷn â phrif lwyddiannau'r ymgyrch farchnata
Gwersi a ddysgwyd.

# B AMODAU CYFFREDINOL

1. Rhaid i'r llyfrau y dyfernir grantiau marchnata ar eu cyfer fod yn llyfrau a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi.

2. Bydd rhaid i'r llyfrau a werthir yn y lansiadau / ar y teithiau gael eu gwerthu gan lyfrwerthwyr cydnabyddedig, a bod y siop(au) wedi derbyn y llyfrau trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau.

3. Rhaid i'r llyfrau gyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y digwyddiadau a noddir. Bydd hyn yn sicrhau bod y llyfrau yn cael eu dosbarthu'n eang, a bod siopau trwy Gymru yn gallu manteisio ar y cyhoeddusrwydd a ddaw yn sgil y lansiad.

4. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer unrhyw gostau a delir sydd ynghlwm â'r gweithgareddau hyrwyddo yn unol â'r polisi, ond ni ellir talu ffioedd i awduron.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

5. Dylai pob deunydd hyrwyddo gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol gydnabod pwysigrwydd cefnogi siop lyfrau leol (ac nid cyfeirio at wefan y cyhoeddwyr yn unig).

6. Dylid cydnabod cefnogaeth y Cyngor Llyfrau yn y digwyddiadau a gefnogir ac ar unrhyw ddeunydd, analog neu ddigidol, a gynhyrchir.

7. Yn achos cyflogi hyrwyddwr proffesiynol gofynnir i chi yrru copi o'u CV at y Cyngor unwaith yn unig.

8. Telir unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth yng nhyd-destun taith hyrwyddo yn unol â chyfraddau CLLC.

**Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:**
**Dr Lynne Williams**
**Adran Datblygu Cyhoeddi**
**Cyngor Llyfrau Cymru**
**Castell Brychan**
**Aberystwyth**
**Ceredigion, SY23 2JB**
**Ffôn: 01970 629554**
**E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru**

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /**
**AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE**



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government